Yn ystod y flwyddyn, cyfrannodd dros 2,000 o gynrychiolwyr o blith grwpiau gwirfoddol a chymunedol tuag at sesiynau briffio ynghylch polisi, cyfarfodydd rhydwethio, cynadleddau a chyfarfodydd cynllunio'r gweinidogion. Parhau a wnaethom i gefnogi cyfraniad y sector yng Nghyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ac mewn cyfarfodydd o'r gweinidogion fel rhan o Gynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad, ac i gefnogi ystod eang o rwydweithiau'r sector gwirfoddol.

Rhoesom gyhoeddusrwydd eang i bapurau ymgynghori a datblygiadau polisi trwy ein gwefan, www.cggc.org.uk, *Rhwydwaith Cymru*, e-hysbys aelodau CGGC, bwletinau electronig bob yn ail wythnos yn ymdrin â busnes a materion y Cynulliad, a bwletinau arbenigol ar iechyd a gofal cymdeithasol, cyfiawnder cymunedol, adfywio cymunedol a dysgu gydol oes. Cyhoeddwyd papurau cefndir gennym ar brif bynciau, a chyflwynwyd ymateb i faterion megis uno'r Gronfa Cyfleoedd Newydd/y Gronfa Gymunedol, y Mesur Elusennau, Comisiwn Richard, cynlluniau a strategaethau'r llywodraeth leol, Cyngorau Iechyd Cymuned ac adolygiadau o gynlluniau grant.

Arolwg o Gynllun y Sector Gwirfoddol

Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y sector gwirfoddol i Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog newydd dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, a sefydlodd gomisiwn annibynnol i adolygu Cynllun y Sector Gwirfoddol. Cafwyd ymgynghori a pharatowyd tystiolaeth fanwl i'r Comisiwn Annibynnol a oedd yn cynnwys dros 40 o argymhellion i wella perthynas y sector gyda Llywodraeth y Cynulliad, a'i gyfraniad tuag at ddatblygu polisi.

Ymysg yr argymhellion, cafwyd cynnig ar gyfer strategaeth hirdymor fel fframwaith polisi ar gyfer y Cynllun diwygiedig, gan adeiladu ar y sylfaen gyffredin rhwng agenda strategol Llywodraeth newydd y Cynulliad, a blaenoriaethau'r sector ei hun fel ag y'u disgrifir yn *Cymdeithas Sifil, gofod sifil*. Yr oedd yr argymhellion hefyd yn awgrymu trefniadau ar gyfer monitro'r Cynllun yn well, a sicrhau ei fod yn cael ei ddilyn; gwella cyfathrebu a chynhwysedd, yn enwedig ymysg grwpiau lleol ac ar gyfer cydweithio rhwng Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol, Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol, a'r Cyngor Partneriaeth Iechyd a Lles.



Glenys Kinnock ASE

Ymateb i ymgynghoriad Comisiwn Richard ynghylch hawliau a threfniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Penododd Rhodri Morgan AC, Prif Weinidiog Cymru, Gomisiwn Richard i arolygu cwmpas hawliau'r Cynulliad: p'un ai ydynt yn ddigonol i ddiwallu anghenion Cymru, nifer yr Aelodau etholedig o'r Cynulliad a'r dull o'u hethol.

Cyflwynodd CGGC dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Gomisiwn Richard ynghylch cwmpas hawliau'r Cynulliad. Wrth gasglu ei dystiolaeth, bu CGGC yn ymgynghori gyda mudiadau gwirfoddol a chymunedol ledled Cymru a gwnaeth 10 o argymhellion o amgylch hawliau'r Cynulliad a'i berthynas gydag adrannau o'r llywodraeth nad ydynt wedi'u datganoli. O'r rhain, adlewyrchwyd nifer ohonynt yn adroddiad terfynol Comisiwn Richard, a gyhoeddwyd fis Mawrth 2004, gan gynnwys y dylai fod yna Cynulliad cyfreithlon i Cymru; ac, yn y cyfamser, y dylid ymestyn yr hawliau dirprwyedig mor bell ag y bo modd; ac y dylid ailgyfansoddi'r Cynulliad fel corff deddfu a gweithrediaeth ar wahân.



Graham Benfield OBE, Prif Weithredwr CGGC, Tom Jones OBE, Cadeirydd, Margaret Jervis MBE, Is gadeirydd a Doug Morris, Trysorydd



Ceri Doyle, Cyfarwyddwr, Cronfa Loteri Fawr, Cymru, Graham Benfield OBE a Sir Clive Booth, Cadeirydd, Cronfa Loteri Fawr

Cydberthnasau'r sector gwirfoddol/llywodraeth leol

Yn dilyn ymgynghori helaeth gyda grwpiau lleol, ym mis Tachwedd 2003, cyhoeddodd CGGC faniffesto newydd *Cymdeithas sifil, gofod sifil - yr agenda lleol, ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2004*. Ymddangosodd hwn mewn atodiad yn y *Western Mail* a ryddhawyd i gyd-daro gyda'r cyhoeddiad a chynhadledd flynyddol CGGC 2003. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r maniffesto hwn, ynghyd â dogfen gysylltiedig a anelwyd at yr etholiadau i Senedd Ewrop ym mis Mehefin 2004, mewn cyfarfodydd ymylol yng nghynadleddau'r pleidiau gwleidyddol yn ystod Gwanwyn 2004.





CRAFT, Ceredigion

Cyberthnasau'r sector gwirfoddol /Cyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPB)

Bu CCGC yn gweithio gydag ELWa i weithredu ei gompact gyda'r sector gwirfoddol, a sefydlodd hefyd grwp sector gwirfoddol i weithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) i ddrafftio ei gytundeb arfaethedig gyda'r sector, a fydd yn destun ymgynghori eang. Mae'r compactau hyn yn cyflwyno protocolau ar gyfer cydweithio er mwyn gwella cysylltiadau, ystyried materion cyllido a dylanwadu ar bolisi rhwng y sector a'r cyrrff hyn.

Yr Agenda Ewropeaidd

Mae ffurf yr UE at y dyfodol yn debygol iawn o newid yn sylweddol o fewn y 5 mlynedd nesaf o safbwynt polisi, proses a nawdd. Un o'r pethau sy'n peri pryder mawr i'r sector yng Nghymru

yn sefyllfa'r cronfeydd strwythurol ar ôl 2006. I baratoi ar gyfer etholiadau Ewropeaidd 2004, cyhoeddodd CCGC *Cymdeithas Sifil, gofod sifil - yr agenda Ewropeaidd*.

Mae CCGC Ewrop wedi parhau i:

- gyfrannu at y drafodaeth yng Nghymru ar lywodraethu a dyfodol y cronfeydd strwythurol trwy gyfres o sesiynau ymgynghori gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- gweithio a rhannu arferion da gyda rhanbarthau Amcan 1 yn Lloegr.
- darparu adnoddau i'r sector er mwyn datblygu ei faint i fanteisio ar gyfleoedd cyllido Ewropeaidd a allai godi ar ôl 2006.
- datblygu maint y sector a gwell dealltwriaeth o agenda polisi'r UE
- gweithio'n agos gyda'r sector yn y drafodaeth ar lywodraethu a democratiaeth gan y Comisiwn, gyda'r Papur Gwyn ar Lywodraethiant.



3. Hyrwyddo hawliau dynol a sifil

Mae gan fudiadau cymdeithas sifil rôl hanfodol bwysig i'w chwarae o ran cysylltu polisiâu a gwasanaethau prif ffrwd - mewn unrhyw sector - â'r bobl y maent yn eu cynrychioli. Mae'r graddau y caiff eu rôl ei chrosawu a'i gwerthfawrogi gan lywodraeth yn fesur o ddemocratiaeth aeddfed. Mae CCGC wedi cyfrannu at rôl y sector i hyrwyddo hawliau sifil a dynol trwy:

Faterion cydraddoldeb

Mae CCGC yn gweithio i gryfhau cyswllt y sector ehangach â materion cydraddoldeb. Yn 2003, trefnodd y gynhadledd 'Symud Ymlaen' ar y sector gwirfoddol a chydraddoldebau mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru (BVSNW) a Rhwydwaith Menywod Ethnig Cymru (MEWN), ar hyrwyddo cydraddoldeb hil o fewn mudiadau gwirfoddol. Mewn digwyddiad arall, gyda Chymdeithas Fawcett, rhoddwyd sylw i'r agenda cydraddoldebau ehangach, a pherthynas y sector gyda un corff cydraddoldebau newydd - gan arwain yn uniongyrchol at sefydlu Clymbaid newydd ar Hawliau Dynol a Chydraddoldebau i'r sector gwirfoddol.

Er nad yw'n ofynnol iddynt wneud hyn dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ddiwygiedig, bydd CCGC yn datblygu *Cynllun Cydraddoldeb Hiliol*. Mae'n ymgynghori ar hyn o bryd gydag aelodau a rhanddeiliad ar y Cynllun drafft; a bydd yn llunio Cynllun Gweithredu dros dair blynedd i'w weithredu. Bydd y cynllun yn adeiladu ar waith presennol CCGC, gan gynnwys ei Bolisi Cyfleoedd Cyfartal a'i Cynllun Gweithredu, ac yn gweithredu ar gydweithio sydd eisoes yn mynd rhagddo gyda mudiadau gwirfoddol ethnig lleiafrifol.



Cyfriliaduron yn y Gymuned

Partneriaeth Cydraddoldeb

Mae CCGC yn aelod gweithredol o Bartneriaeth Cydraddoldeb Ewrop ochr yn ochr â mudiadau eraill fel Chwarae Teg, AWEMA, Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE), Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal (EOC), Bwrdd yr Iaith, Stonewall, Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC), Awdurdod Datbygu Cymru (WDA) a Chlymbaid Rhwydwaith Merched Cymru (WWNC). Mae'r bartneriaeth hon yn cynnig arbenigedd Cyfleoedd Cyfartal i holl raglenni'r gronfa strwythurol yng Nghymru.



Prosiect abwydfa (Cylch)

Cynllun gweithredu cynhwysiant cymdeithasol

Mae Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol Cynhwysiant Cymdeithasol yn elfen allweddol o broses cynhwysiant cymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd, a addaswyd yn Nghyngor Ewropeaidd Lisbon yn 2000 gyda'r bwriad o gael effaith bendant ar wneud i ffwrdd â thlodi ac allgáu cymdeithasol erbyn 2010. Caiff y cynlluniau eu llunio ar sail dwy flynedd gan yr holl Aelod-Wladwriaethau. Mae'r Comisiwn wedi galw am argymhellion i annog cydweithrediad rhwng yr Aelod-Wladwriaethau er mwyn brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi ac yn ategu'r broses cynhwysiant cymdeithasol. Mae CCGC, mewn partneriaeth ag Oxfam Cymru, Chwarae Teg a Plant yng Nghymru yn ymwneud yn frwd â chais yn y DU a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen hon.

Cynllun Gwerthfawrogi Gwirfoddolwyr

Mae'r bobl hynny a gafodd brofiad personol o gamwahaniaethu ym maes cyflogaeth wedi

cymryd rhan mewn prosiect ymchwil i edrych ar y cysylltiadau rhwng gwirfoddoli a chyflogadwyedd. Mae'r *Cynllun Gwerthfawrogi Gwirfoddolwyr* yn rhan o bartneriaeth sy'n cynnwys 25 o grwpiau, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol a chyrrff statudol yn cynnwys DEEP - y Bartneriaeth Datblygu Cydraddoldeb mewn Cyflogadwyedd, sy'n cael ei chydlynu gan Awdurdod Datblygu Cymru. Mae pedwar o wirfoddolwyr yn edrych ar wahanol agweddau o allgáu cymdeithasol a'i effaith ar gyflogaeth.

Amrywiaeth wrth recriwtio gwirfoddolwyr

Gall mudiadau dderbyn help, erbyn hyn, i wella amrywiaeth eu timau gwirfoddoli gyda datblygiad cwrs newydd ym maes recriwtio gwirfoddolwyr. Mae'r hyfforddiant yn edrych ar rwystrau a sut i'w goresgyn ac fe'i sefydlwyd trwy'r Prosiect Hyrwyddo Gwirfoddoli, a noddir gan y Gronfa Gymunedol. Trefnwyd rhaglen ddwy-flynedd o weithdai a, hyd yma, mae 202 o bobl wedi eu mynychu.

4. Cynyddu cyfranogiad a chyfrifoldeb sifil

Mae cyfranogiad yn ymwneud â phobl - fel unigolion, neu mewn grwpiau - sy'n chwarae rhan mewn cymdeithas, sy'n cael lleisio eu barn mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, a chymryd cyfrifoldeb am weithgareddau yn eu cymunedau eu hunain. Mae CCGC yn helpu mwy o bobl i gymryd rhan trwy'r cynlluniau canlynol:

Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru

Y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, yw un o'r ffynonellau cyllido pwysicaf i wirfoddolwyr yng Nghymru. Nod y cynllun yw recriwtio gwirfoddolwyr newydd, datblygu arferion da ac annog gweithgareddau mewn ardaloedd lle nad yw'r arfer o wirfoddoli wedi datblygu gystal. Dyrannwyd £917,672 i 22 o brosiectau newydd, 37 prosiect parhau, a 29 o ganolfannau gwirfoddoli, sy'n cynnwys 6,751 o wirfoddolwyr.

Chi a'ch Cymuned

Grantiau bach yw Grantiau'r Mileniwm ac maent yn galluogi unigolion i roi eu syniadau da ar waith. Llwyddodd gwobrau Chi a'ch Cymuned

i roi cefnogaeth ariannol i ddatblygu'r sgiliau sy'n helpu unigolion i weithredu ar brosiectau a fydd o fudd i'w cymuned, yr amgylchedd neu'r economi lleol. Comisiwn y Mileniwm a'r Cynulliad Cenedlaethol a ddarparodd yr arian ar gyfer y cynllun. Dyfarnwyd 298 o grantiau, at ei gilydd, eleni a'r rheiny werth cyfanswm o £654,771.

Llwybrau Dysgu 14-19 - cynnwys pobl ifanc mewn gweithgarwch gwirfoddol a chymunedol

Mae CCGC wedi cymryd rhan mewn cyfres o weithdai sy'n edrych ar wahanol agweddau o bolisi addysg diweddaraf y Cynulliad ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Bu'r grwp Llywbrau Dysgu Profiad Gwirfoddol a Chymunedol yn ystyried sut y gallai'r sgiliau a'r profiadau y mae pobl ifanc yn eu cael trwy wirfoddoli gyfrif tuag at gymhwyster. Wrth iddi ddod i'r amlwg y byddai elfen 'gwirfoddoli' Bagloriaeth Cymru yn debygol o fod yn orfodol, dilëwyd pob sôn am wirfoddoli o'r adroddiad terfynol, a'i ddisodlii gan Gyfranogiad Cymunedol.

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Cyhaeddodd Gwirfoddolwyr y Mileniwm ddwy garreg filltir bysigr yn ystod y flwyddyn pan ymunodd y 4000fed person ifanc â'r cynllun, a chyflawni'r 1000fed Dyfarniad Rhagoriaeth. Dangosodd ffigurau diwedd y flwyddyn fod cyfanswm o 981 wedi dod yn Wirfoddolwyr y Mileniwm, gan greu cyfanswm o 4416.

Grwp Diwylliant Thai





Enillwyr gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn

www.gwirfoddoli-cymru.net

Mae'r wefan wirfoddoli hon wedi dod yn fwy ac yn fwy poblogaidd wrth i fwy nag erioed o bobl ddefnyddio'r safle i ganfod ffeithiau am wirfoddoli. Derbyniodd canolfannau gwirfoddoli gyfanswm o 4330 o ymholiadau gan ddarpar-wirfoddolwyr o ganlyniad niongyrchol i ymwelwyr â'r safle. Nifer y cyfleoedd a restrwyd oedd 4078.

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Mae hwn yn wobwr newydd i wirfoddolwyr Cymru, ac mae'r diolch i brosiect gwirfoddoli'r Gronfa Gymunedol, Fe'i lansiodd ym mis Rhagfyr 2003 i nodi diwrnod y Gwirfoddolwyr Cenedlaethol ac fe ddenodd 116 o enwebiadau erbyn y dyddiad cau. Cynhaliwyd y seremoni dethol a dyfarnu yn ystod yr Wythnos Wirfoddolwyr.

Gwobr Seren y 'Steddfodau

Mewn partneriaeth a'r Eisteddfod Genedlaethol a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru, lansiodd CGGC dwobr cyntaf Seren y 'Steddfodau ym mis Chwefror 2004. Bwriad y dyfarniad yw gwobrwyo a chydnabod gwirfoddolwyr sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'r gwaith o gynllunio, trefnu, codi arian at, neu redeg Eisteddfod ar lefel leol, genedlaethol neu ryngwladol. Mrs Elsie Nicholas o Yr Hendy, ger Llanelli, oedd yr enillydd teilwng cyntaf,

a chafodd ei anrhydeddu ar brif lwyfan pafiliwn yr Eisteddfod gan R Alun Evans, Llywydd yr Eisteddfod, a Mair Stephens, aelod o Fwrdd CGGC.

Cefnogaeth i reolwyr gwirfoddolwyr

Cafodd y cwrs bythol-boblogaidd i Reolwyr Gwirfoddolwyr Effeithiol ei uwchraddio i fodloni safonau galwedigaethol ac yr oedd yn llawn. Bu'r gwaith yn parhau ar lefel y pedair gwlad i ddatblygu'r nod barcud ansawdd Buddsoddwyr mewn Pobl, a gaiff ei lansio yn ystod hydref 2004. Yr oedd corff proffesiynol i gefnogi datblygiad personol rheolwyr gwirfoddolwyr, Sefydliad Rheolwyr Gwirfoddolwyr Cymru, wedi llwyddo i ddenu 35 o aelodau erbyn diwedd mis Mawrth.

Cynllun Grantiau Ychwanegol i Ganolfannau Gwirfoddolwyr

Dan nawdd y cynllun Cymdeithasau Byw, dyfarnwyd grantiau sydd at ei gilydd werth £661,539 i 26 o ganolfannau gwirfoddolwyr yn



Mrs Elsie Nicholas, Seren y 'Steddfodau 2004

ystod y flwyddyn. Nod y gronfa yw cynnwys mwy o bobl mewn gwaith gwirfoddol a chymunedol.

Ysgogydd Cymunedol MLH

Daeth y cyllid ar gyfer y cynllun hwn i ben ym mis Ionawr 2004 er gwaethaf contract 12 mis llwyddiannus dros ben. Cafodd gydnabyddiaeth eang fel model o arfer dda i gyfranogiad cymunedol ar gyfer ac o fewn grwpiau dan anfantais. Yn oedd Ysgogydd Cymunedol MLH yn cynnig profiad gwaith ymarferol mewn gwahanol brosiectau cymunedol a mudiadau gwirfoddol unigol ledled rhanbarth Amcan 1 Gogledd Cymru. Yr oedd 21 o gyfranogwyr ynghlwm wrth y prosiect, ac mae 18 o'r rheiry wedi mynd yn eu blaenau i ganfod cyflogaeth yn y sector cymunedol.

Cyfranogi Cymru

Gyda chefnogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, mae Cyfranogi Cymru wedi gweithio i roi gwell cyfleoedd i gymunedau ac unigolion gael 'lleisio barn' a chyfranogi mewn datblygiadau a allai effeithio ar eu bywydau. Trwy barhau i ddatblygu ystod eang o gyrsiau hyfforddi a chymryd rhan mewn rhwydweithiau hwyluswyr, mae'r cynllun yn gweithredu fel ffynhonnell o gefnogaeth, arweiniad a chyngor ymarferol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

CIVICUS

Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru wedi datblygu perthynas weithredol gyda CIVICUS, cynghrair y byd dros gyfranogiad dinasyddion. Mae'r Gymrodoriaeth Gymdeithasol Sifil yn cael ei rhedeg ar y cyd gan CGGC a CIVICUS ac yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.



5. Cynyddu cyfalaf cymdeithasol

Mae cynyddu cyfalaf cymdeithasol yn sylfaen hollbwysig ar gyfer cymdeithas sifil gadarn. Mae CCGC wedi gweithio i adeiladu cyfalaf cymdeithasol:

Grŵp Rhwydweithiau Cymunedol a seminarau a chynhadledd Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf

Mae cefnogi cymunedau i gymryd yr awenau gyda'u hadfywiad eu hunain wrth wraidd gwaith CCGC i gynyddu cyfalaf cymdeithasol. Mae CCGC yn cefnogi'r ffaith fod y grŵp rhwydweithiau cymunedol yn dwyn ynghyd 15 o rwydweithiau cenedlaethol i lobio am gydnabyddiaeth i grwpiau cymunedol ac adnoddau ar eu cyfer. Fel aelod o Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, trefnodd CCGC raglen o wyth seminar a chynhadledd sylweddol a oedd yn cynnwys dros 350 o bobl o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar draws Cymru.

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Noddir Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf z gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n anelu'r y mudiadau bach dan arweiniad y cymunedau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf led led Nghymru. Mae'r gronfa dan reolaeth Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf ac yn cael ei gweinyddu ar ei ran gan CCGC. Pwrpas y cynllun yw cefnogi unrhyw fath o weithgarwch sy'n cynnwys pobl leol, trwy fudiadau cymunedol bach, ac sydd o fudd i'r gymuned. Rhaid i'r gweithgareddau gynnig rhywfaint o fudd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i'r bobl sy'n byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf.



Prosiect Cymuned De Glan yr alon; adrodd straeon

Yr oedd 2003/04 yn flwyddyn brysur iawn i Gronfa'r Ymddiriedolaeth gyda wrth iddo dderbyn 2,462 geisiadau gwerth £8,409,610 gyda'i gilydd, a 2,457 o geisiadau werth £6,615,700 at ei gilydd wedi'u dyfarnu i amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol ledled Cymru.

Y mae Cronfa'r Ymddiriedolaeth wedi cael ei hymestyn am dair blynedd arall gyda £3,000,000 y flwyddyn i gael ei ddosbarthu i grwpiau sy'n cynnig gwasanaeth i bobl sy'n byw o fewn ward Cymunedau'n Gyntaf, is wardiau a chymunedau o ddiddordeb ledled Cymru.

Risg Gymdeithasol

Mae'r Gronfa Risg Gymdeithasol yn cynnig grantiau o hyd at £10,000 i fudiadau a grwpiau bach. Ceir ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Y nod yw cefnogi'r broses o adfywio cymunedau ledled Cymru trwy gefnogi mudiadau a grwpiau i roi cynnig ar weithgareddau newydd sy'n anelu at gynyddu sgiliau a brwydro yn erbyn allgâu cymdeithasol. Eleni, cefnogodd y Gronfa 104 o brosiectau werth £950,786.

Adeiladau cymunedol

Mae Adeiladau Cymunedol yn cynnig ariannu mudiadau gwirfoddol bach i ymgymryd â man-atgyweiriadau a gwelliannau i adeiladau cymunedol, gyda chyfanswm cost prosiect o rhwng £5,000 a £20,000. Derbyniwyd 63 o geisiadau sydd werth £954,174. Dyrannwyd £239,708 i saith o fudiadau.



Prosiect Cymuned De Glan yr alon; caneuon

6. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau

Gall holl elfennau cymdeithas sifil weithredu'n gyfrifol tuag at adnoddau'r ddaear a chymdeithasau eraill trwy'r dewisiadau a wnânt fel defnyddwyr. Mae CCGC wedi cyfrannu at ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy trwy:

Enfys

Bwriad Enfys yw creu mwy o feysydd glas, a rheolir y cynllun gan CCGC mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru ac Amgylchedd Cymru.

Mae'r rhaglen amgylcheddol hon wedi dyfarnu £1.6m i 100 o brosiectau, gan greu cyfanswm o £4.67m a 231 o brosiectau, y naill a'r llall.

Mae Enfys wedi ariannu ystod anferth o weithgareddau cymunedol bach yn amrywio o barciau a gerddi, i fannau chwarae, llwybrau cerdded a gwarchodfeydd natur, astudiaeth i weithgareddau ailgylchu mewn digwyddiadau sylweddol, plannu coed, cynhyrchu ynni adnewyddadwy o solar, asglod coed ac olew coginio sydd wedi'i ddefnyddio. Mae wedi cyfrannu hefyd at nifer o brif brosiectau partneriaeth gan gynnwys canolfannau ailgylchu, rhwydweithiau o lwybrau beiciau a phrosiect adfer dyfrffyrdd.



Gwerin Crefft Pren Penarth



Cyfrifiduron yn y Cymuned

Ffrydian ac SRS

Bydd cynllun Ffrydian yn buddsoddi grantiau hyd at £300,000 mewn prosiectau fydd yn bwriadu cynnwys cymunedau led led Cymru mewn ail-ddefnyddio, ail-gylchu a chompostio. Mae CGGC yn rheolir cynllun, gyda chefnogaeth oddi wrth Cylich - Rhwydwaith Ail-gylchu Cymunedol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bu'r ymateb i raglen grantiau Ffrydian yn anhygoel, gydag amrywiaeth eang o brosiectau yn dod ymlaen. O'r saith ar hugain o geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod, derbyniodd deunaw o'r prosiectau grantiau yn amrywio o £25,000 i £300,000, gan greu cyfanswm o'r £2.65m mewn dim ond dwy rownd. Rhyddaodd y Gronfa Cyfle Newydd gronfa wrth gefn pellach o £106k ym mis Chwefror 2004 a dyrannwyd hwn i dri phrosiect arall ym mis Ebrill 2004.

Cymru yw'r wlad cyntaf yn y DU i ymrwymo'n llawn ei ddyraniad o gyllid dan raglen 'Gweddnewid Eich Gwastraff' y Gronfa Cyfle Newydd, ac mae'n dangos y ffordd o safbwynt



Fforwm Gwastraff Caerdydd; ail-gylchu yn y gymuned

cynnwys cymunedau yn y broses ailgylchu yn y DU. Yr hyn a fu'n allweddol i'r llwyddiant hwn fu cyfranogiad Cylich a'i waith gyda'r pum sir 'enghreffitl' sy'n anelu at gyfeirio mwy na 50 y cant o'u gwastraff bwrdeistrefol o safleoedd tirlenwi cyn pen tair blynedd, ond mae nifer o brosiectau llai hefyd wedi derbyn arian. Mae effaith y prosiect wedi derbyn cydnabyddiaeth o fewn Llywodraeth y Cynulliad ac yn San Steffan hefyd, a bu'n ffactor allweddol yn y bartneriaeth a enillodd y contract i gyflwyno'r Cynllun Ailgylchu Strategol (SRS) dilynol; cronfa allweddol o £15.8m i ymestyn ac adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd gan raglen Ffrydian. Lansiwyd rhaglen SRS ym mis Ebrill 2004 a bydd yn rhedeg am dair blynedd. Mae'n cael ei noddi ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac adnoddau Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd.



Carwyn Jones AC, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a Graham Benfield OBE yn ystod lawns y Cynllun Ailgylchu Strategol

7. Creu polisiâu dan arweiniad defnyddwyr

Mae cynnwys defnyddwyr (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau lleol) yn cael ei dderbyn, erbyn hyn, ar y cyfan fel elfen hanfodol o ddatblygu polisi. Mae CCGC wedi gweithio i gadarnhau cyfranogiad defnyddwyr trwy:

Codi Pontydd Cadarn

Daeth cyllid dan gynllun *Codi Pontydd Cadarn* Llywodraeth y Cynulliad i'r amlwg yn ystod Gwanwyn 2003, i gefnogi penodiad un hwylusydd iechyd a gofal cymdeithasol amser llawn gan bob cyngor gwirfoddol sirol. Mae'r hyrwyddwyr, erbyn hyn, yn eu swyddi, ac mae'r gwaith i gynyddu cyfraniad y sector at gynllunio gwasanaethau iechyd a lles yn lleol wedi cynyddu o ganlyniad i hynny. Mae'r swyddi newydd hyn wedi cynyddu cyfraniad y grwpiau sy'n cynrychioli safbwyntiau defnyddwyr a gofalwyr o ran dynodi anghenion iechyd, a siapio'r strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles sy'n cael eu paratoi ym mhob ardal bwrdd iechyd lleol.

Cynllun Grantiau Iechyd Meddwl Lleol

Amcan y cynllun yw rhoi cymorth grant i fudiadau gwirfoddol lleol sy'n cynnig cefnogaeth i bobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl. Mae dwy lefel i'r Cynllun Grantiau Iechyd Meddwl Lleol (LMHGS) 2002-2005:

Nod y cynllun rheoledig yw cefnogi'r rhai sydd wedi derbyn grantiau i barhau i sicrhau datblygiad effeithiol a gwasanaethau lleol ledled Cymru i fudiadau gwirfoddol lleol, grwpiau o ddefnyddwyr a grwpiau o deuluoedd a gofalwyr sy'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl. Dyfarnwyd £1.9m i 47 o grwpiau.



Gwirfoddolwr y Flwyddyn ar waith

Mae'r cynllun grantiau bach wedi'i anelu'n bennaf at grwpiau a mudiadau nad ydynt, ar hyn o bryd, yn derbyn arian gan y cynllun rheoledig, sy'n gallu dangos manteision cynaliadwy mewn gwasanaethau iechyd meddwl heb yr angen am nawdd rheolaidd yn y dyfodol. Derbyniodd 35 o fudiadau gyfanswm o £100,000.

8. Hyrwyddo menter gymdeithasol

Mae mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn darparu ystod eang o wasanaethau, ac eisoes yn darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus, ond gallent wneud mwy trwy fabwysiadu dulliau menter gymdeithasol. Mae CCGC wedi cynorthwyo i ddatblygu gwasanaeth/menter gymdeithasol trwy:

Cynllun Gweithredu Menter Gymdeithasol

Mae CCGC wedi bod yn aelod gweithredol o weithgor Llywodraeth y Cynulliad a fu'n paratoi'r Cynllun Gweithredu Menter Gymdeithasol drafft. Bu'r cynllun hwn yn destun ymgynghori yn 2003/04, ac mae wedi codi proffil gweithgarwch menter gymdeithasol, ac ymrwymiad y Cynulliad i gefnogi ei dwf. Mae Llywodraeth y Cynulliad, erbyn hyn, yn llunio'r camau nesaf i weithredu ar strategaeth

i gefnogi menter gymdeithasol. Bydd y gweithgor yn aillffurfio, ac mae wedi gwneud ymrwymiad cadarnhaol i gynnwys rhagor o weithredwyr menter gymdeithasol yn y gwaith o fwrw ymlaen â'r cynllun.

Marchnad Lafur Hanner Ffordd Gogledd Cymru

Ffurfiwyd Marchnad Lafur Hanner Ffordd Gogledd Cymru (NWLM) ym mis Mai 2003 i ddatblygu a rheoli Prosiectau Marchnad Lafur



'On Track'

Hanner Ffordd (ILM) yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'r NWLMI yn cynnig fframwaith o gefnogaeth a nawdd i brosiectau ILM ar draws ardaloedd Amcan 1 yng Ngogledd Cymru.

Mae NWLMI yn bwriadu cefnogi a helpu isafswm o 1,000 o bobl, i helpu o leiaf 720 gael gwaith hir-dymor, a helpu'r buddianwyr gael a leiaf 1,200 o gymwysterau cenedlaethol.

Risg cyfalaf

Mae'r prosiect hwn yn destun cais presennol am arian dan Amcan 1. Fe'i datblygwyd ar gais y Bartneriaeth Strategaeth Aseidion Cymunedol, a oedd wedi dwyn sylw at yr angen i symblu galw ar lefelau lleol i ddatblygu mudiadau economi cymdeithasol. Y brif nod yw rhoi i fudiadau gwirfoddol a chymunedol fodd i archwilio'r broses o greu incwm fel rhan o'u cynaladwyedd ariannol tymor hir. Bydd y prosiect yn helpu mudiadau gwirfoddol a chymunedol i archwilio'r opsiynau o arallgyfeirio grantiau a chreu incwm, gan arian at well gweithgareddau cyflogaeth a masnachu.

Cysylltiadau

Mae CCGC yn rheoli 4 o brosiectau Marchnad Lafur Hanner Ffordd (ILM) sy'n cynnig cyfle unigryw i bobl sy'n anweithgar yn economaidd i gael mynediad i fyd gwaith. Mae'r prosiectau wedi'u cynllunio'n benodol i roi cyfle 'gwirioneddol' i'r rhai sydd dan anfantais yn y gweithle i gael cyflogaeth gynaliadwy a hirdymor.

Mae dros 200 o bobl wedi bod yn ymwneud yn frwd â phob prosiect ILM dros y flwyddyn. O'r rhain, mae 70 y cant wedi symud ymlaen i gael



'Kit out the kids'

swyddi cynaliadwy a hirdymor. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfrannu tuag at ddatblygiad economaidd cynaliadwy, tra hefyd yn darparu gwasanaethau penodol i'r gymuned ac i'r sector gwirfoddol yn gyffredinol.

Fel enghraifft, mae **Cyswilt Adwerthu** yn rhoi cyfle i bobl gael profiad a chymwysterau galwedigaethol o fewn y sector adwerthu. Caiff y prosiect hwn ei redeg mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a chaiff yr hyfforddeion eu lleoli mewn amrywiaeth o ganolfannau gwerthu. Yn ystod y lleoliad, mae'r hyfforddai yn perfformio rôl hanfodol o fewn ganolfan honno ac, erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis, bydd ganddo'r gallu i reoli'r ganolfan honno'n effeithiol.

9. Ategu cymdeithas sifil

Mae ar gymdeithas sifil sy'n ffynnu angen sgiliau, adnoddau a chyfleusterau i flodeuo a datblygu mewn amgylchedd sy'n newid. Mae ein gwaith i ategu cymdeithas sifil wedi cynnwys:

Lein Gymorth

Yr oedd Lein Gymorth CCGC (0870 607 1666 help@wcva.org.uk) wedi delio gydag oddeutu 9,000 o ymholiadau y llynedd. Yr oedd cyfran helaeth o'r ymholiadau hyn gan fudiadau a oedd yn chwilio am gyfleoedd cyllido a chynhaliwyd nifer fawr o chwiliadau Chwilgrant ar ran aelodau CCGC. Mae'r dasg o ddiweddarau'r sector yn barhaus trwy Ddalenni Gwybodaeth yn parhau ac mae nifer fawr wedi cael eu diweddarau yn ogystal ag ychwanegiadau newydd.

Mae Help CCGC hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth **Lein Gymorth Cymunedau yn Gyntaf** (0800 587 8898) gan ymateb i dros 2,200 o ymholiadau y llynedd. Dosbarthwyd oddeutu 1,500 o becynnau cyllido Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Caiff Bwletin Cymunedau yn Gyntaf ei gyhoeddi'n fisol gan CCGC a'i anfon at dros 1,000 o bobl.

www.cggc.org.uk

Parhau i gynyddu a wna'r defnydd o wefan CCGC fel ffynhonnell wybodaeth gan y sector gwirfoddol yng Nghymru, gyda 14,436 o ddogfennau wedi'u llwytho i lawr, sef cynnydd o 40 y cant ar y flwyddyn flaenorol.

Gwasanaethau cyfreithiol

Ymatebodd y prosiect gwasanaethau cyfreithiol i dros 400 o ymholiadau manwl, ar faterion sy'n amrywio o gyfraith cyflogaeth a phensiynau i gontractau, atebolrwydd ymddiriedolwyr a phartneriaethau. Mae'r ymholiadau wedi mynd



Liz Flack, Pennaeth Uned Cofnodion Troseddol CCGC a Glenys Kinnock ASE

yn fwy ac yn fwy cymhleth dros y flwyddyn a aeth heibio. Trefnwyd **cynhadledd cyfraith elusennau Cymru**, sef cynhadledd gyntaf tra llwyddiannus, gyda chefnogaeth cyfreithwyr Stone King.

Yr Uned Cofnodion Troseddol

Dechreuodd yr Uned Cofnodion Troseddol (CRU) weithredu ym mis Hydref 2003 ac fe'i lanswyd yn ffurfiol ym mis Rhagfyr gan Glenys Kinnock MEP, a Janice Gregory AC, Cadeirydd Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad.

Mae'r Uned, sy'n un o gyrff cofrestredig y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) wedi'i sefydlu i helpu mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i fanteisio ar Wasanaeth Datgelu Gwybodaeth y CRB. Mae gwasanaethau'r CRU ar gael i unrhyw fudiad gwirfoddol sy'n gymwys i ymgymryd ag archwiliadau datgelu gwybodaeth ar gyfer gwirfoddolwyr neu staff a fydd yn gweithio gyda phlant neu oedolion sydd mewn sefyllfa fregus.

Mae'r Uned yn cynnig gwasanaeth unigryw heb unrhyw gostau gweinyddol. Ymdriniodd â dros 1,300 o geisiadau i ddatgelu gwybodaeth yn ystod 3 mis cyntaf 2004. Cafwyd croeso da i raglen y CRU o sioeau teithiol ac mae'r mudiadau unigol sy'n cofrestru gyda'r Uned o'r farn fod ymweliadau ymgynghorwyr cyswilt yn gwbl amhrisiadwy.

Hyfforddiant

Rhedodd hyfforddiant CCGC raglen effeithiol iawn o gyrsiau ledled Cymru: yn ychwanegol at yr 89 cwrs a'r 1,029 o unigolion a fynychodd y cyrsiau hyfforddiant a drefnwyd, trefnodd staff hyfforddi CCGC gyrsiau mewnol, a'u cyflwyno, i fudiadau a grwpiau unigol.

Yr oedd cyllid cynaliadwy, a gefnogwyd gyntaf gan Awdurdod Datblygu Cymru, yn sylfaen cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a chymuned i'w helpu i weld lle, sut a phan y gallai cynllunio busnes, datblygu strategaeth a ffynonellau newydd o gyllid, arwain at gynladwyedd mwy hirdymor.

Bu'r gwaith ar raddfa'r DU i hyrwyddo'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y sector yn parhau. Mae *How are you doing? - a guide to using national occupational standards to enable people to achieve professional and personal goals* wedi helpu pobl sy'n dymuno defnyddio'r Safon fel modd i godi safonau a gwella ansawdd.

Mae Ymddiriedolaeth Cyfryngau Cymru wedi cyflwyno gweithdai a chysiau hyfforddi ymarferol i helpu dros 300 o bobl mewn mudiadau sector gwirfoddol i greu gwell cysylltiadau trwy fabwysiadu dulliau gwell o weithio gyda'r cyfryngau yng Nghymru. Mae'r prosiect yn ymfalchio yn y gefnogaeth werthfawr a'r cyfraniad y mae wedi'i sicrhau gan weithwyr proffesiynol mewn cwmnïau gan gynnwys Golley Slater PR, Quadrant, Harrison Cowley PR, BBC Cymru, HTV Cymru, a phapurau newydd y *Western Mail* a'r *Echo*.



Cyhoeddiadau

Mae *Rhwydwaith Cymru*, prif gylchgrawn y sector yng Nghymru, wedi dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed eleni gyda rhifyn coffaol. Mae'r ddogfen *e-hysbys* electronig, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid, hyfforddiant a newyddion i'r sector, yn cael ei hanfon allan bob pythefnos at dros 900 o fudiadau.



Tom Jones OBE a 1,000fed aelod CCGC Rhyf Rhyngweithiol (Gemma Fox a Dawn McGuinness)

Aelodaeth

Eleni, croesawodd CCGC ei 1,000fed aelod, *Rhyngweithiol Rhyf*, a lansiwyd ym 1999 gyda chefnogaeth Llywydd CCGC, Glenys Kinnock MEP, er mwyn gwella cyfraddau gweithgarwch economaidd i drigolion y Rhyf. Mae wedi sicrhau cyllid Amcan 1 Ewropeaidd i brosiect 'e-bentref' i fenywod, sy'n darparu hyfforddiant TG a sgiliau hunan-hyder i fenywod lleol.

Mae aelodau CCGC yn gymwys i dderbyn gostyngiadau ar gyrsiau hyfforddiant, cynadleddau a chyhoeddiadau yn ogystal â gallu manteisio ar wasanaethau a chynnyrch a gaiff eu darparu gan gyflenwyr allanol am bris gostyngol. Eleni, buom yn cyd-drafod nifer o gynlluniau affinedd newydd sy'n cynnig prisiau gostyngol mewn gwestai, cynnyrch sy'n cael ei hyrwyddo a gwasanaeth cyfieithu.

At hyn, cyflwynwyd categori newydd o aelodaeth - **e aelodau** - wedi'i anelu'n bennaf at grwpiau bach lleol, sy'n ymaelodi i dderbyn diweddariad cyllido electronig bob pythefnos, sef eXtra. Mae'r cynllun wedi dechrau'n arbennig o dda gyda dros 200 o grwpiau'n ymaelodi yn ystod y mis cyntaf.

Sbardun

CCGC oedd yn gyfrifol am bafiliwn y sector gwirfoddol, sef Sbardun, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd a chafwyd rhaglen lawn o weithgareddau gan elusennau cenedlaethol a lleol, a grwpiau cymunedol.

Cafwyd trafodaethau bywiog ar wahanol bynciau gan gynnwys strwythur newydd y loteri a thaf forddiadwy yng Nghymru. Paul Flynn AS oedd y siaradwr gwadd yn y lansiad, ac yr oedd yn canmol gwaith y sector yng Nghymru ac yn cyflwyno tystysgrifau i'r rhai a ddaeth yn ail ac yn drydydd yng nghystadieuath Seren yr Eisteddfod. Am y tro cyntaf eleni, ymunodd y Comisiwn Elusennau â Sbardun, ynghyd â wynebau newydd eraill, Gofal Canser y Fron Cymru ac Awtistiaeth Cymru.

Ymchwil

Mae Ymchwil CCGC wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n dangos y canlyniol am Gymru:

- Mae bron i 1.5 miliwn o bobl yn gwirfoddoli bob blwyddyn
- Mae oddeutu 30,000 o fudiadau gwirfoddol
- Mae o leiaf 22,900 o bobl yn gweithio yn y sector gwirfoddol

Hefyd, mae'r sector

- Yn cael incwm blynyddol o £1,022m, gyda £2 yn cael ei godi gan y cyhoedd, ymddiriedolaethau preifaf, busnesau neu weithgareddau masnachu



Tom Jones OBE, Graham Bentfield OBE a Paul Flynn AS yn datlu pen blwydd CCGC yn 70 oed yn Sbardun

am bob £1 a gaiff ei roi mewn grantiau neu daliad am wasanaethau gan gyrrff cyhoeddus.

- Wedi cyfrannu yr hyn sy'n cyfateb yn fras i **£2,240m tuag at CDC** ar sail amser gwirfoddolwyr a thaliadau i staff.
- Wedi dangos effeithiau mewn sawl maes o fywyd Cymru, yn enwedig gwella ansawdd bywyd a helpu pobl i gael eu cynnwys fwy mewn cymdeithas o safbwynt cymdeithasol ac economaidd.
- Angen canfod y gweithwyr cywir i gyflawni swyddogaethau anodd.

Cyflawnwyd hyn trwy gyhoeddi

- Diweddariad sylweddol o *Almanac y Sector Gwirfoddol*
- Tri prif adroddiad ar incwm y sector gwirfoddol, gwaith ac effaith grwpiau'r sector gwirfoddol ledled Cymru ac astudiaeth o anghenion sgiliau staff mewn mudiadau gwirfoddol.
- Gwaith ymchwil cydweithredol sy'n nodi lefel a math y cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Awdurdodau Lleol, ymddiriedolaethau preifat a llywodraeth leol i'r sector.

Canolfan galwadau cymunedol Cyswllt Galwadau

Mae'r ganolfan hon yn darparu gwasanaeth trin galwadau proffesiynol, gwasanaeth i gwsmeriaid a chyfleuster marchnata i'r sector gwirfoddol a mudiadau eraill yng Nghymru ac yn y DU. Mae'n cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog, prisiau cystadleuol ac yn defnyddio cyfleuster ag offer cynhwysfawr a diweddar. Yn ystod y flwyddyn, mae 120 o bobl wedi manteisio ar yr hyfforddiant a ddarperir yn Cyswllt Galwadau ac mae 63 ohonynt wedi cael swydd amser llawn.

Cyflogres a gwasanaeth gweinyddu Cyswllt Taliadau

Mae'r gwasanaeth hwn, sydd wedi'i leoli ym Mhrestatyn, yn cynnwys: proses a chynhyrchu cyflogresi safonol fesul wythnos, pythefnos, pedair wythnos a mis; gwasanaethau cefnogi gweinyddol llawn ar gyfer recriwtio gan gynnwys prosesu ceisiadau, dethol cychwynnol a recriwtio terfynol. Mae tri deg a dau o hyfforddeion wedi manteisio ar yr hyfforddiant yn Cyswllt Taliadau ac mae 24 ohonynt wedi cael swyddi amser llawn.

Y Fargen Newydd

Mae CGGC, gyda chefnogaeth mudiadau lleol y sector gwirfoddol, yn rheoli contract **Y Fargen Newydd** yn llwyddiannus ar ran consortiwm Gogledd Cymru o fudiadau gwirfoddol. Mae'r cynllun yn darparu profiad gwaith i bobl ifanc 18-24 oed mewn lleoliadau o'u dewis nhw ac yn eu cynorthwyo; ymysg y rhain cafwyd amrywiaeth eang iawn o opsiynau sy'n amrywio o weinyddu i waith mewn sw. Eleni, cafwyd 106 o hyfforddeion, ac mae 36 y cant wedi cael gwaith tymor hir. Dylai'r contract fod wedi dod i ben ym mis Ebrill 2003, ond y mae JC+ wedi ymestyn y contract tan ddiwedd mis Mawrth 2005 a bydd CGGC yn parhau i gyflwyno'r opsiwn yng Ngwynedd.

Cynllun LVS

Mae'r cynllun gwasanaethau gwirfoddol lleol yn cynnig cyllid craidd i'r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol. Dylarnwyd cyfanswm o **£2,629,000** i Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) i'w helpu i gefnogi, datblygu a chynrychioli grwpiau gwirfoddol ym mhob sir yng Nghymru. Mae'r nawdd wedi'u helpu i gyflwyno **800** o gyrsiau hyfforddiant, cynnig cyngor cyffredinol i **65,000** o ymholwyr ac i fanteisio ar **15,000** o wasanaethau o natur ymarferol e.e. benthyciadau am offer, llungopio/argraffu, llogi ystafell ayb.

10. Adnoddu Cymdeithas Sifil

Mae cymdeithas sifil yn cynhyrchu llawer mwy o incwm gan y cyhoedd yn gyffredinol a chan gyrrff preifat ac elusennol nag y mae 'n ei dderbyn o ffynonellau cyhoeddus. Ac eto, yn y tymor byr y mae cyllid anniogel a chwilio am nawdd yn broblemau sylweddol i lawer o fudiadau. Mae CCGC wedi helpu trwy:

Ymrwymiadau cyllido newydd

Mae CCGC wedi dal i bwyso am fwy o adnoddau i'r sector trwy ymatebion a chynrychiolaethau polisi. Yr oedd y cyllid ychwanegol ar gyfer gweithgarwch y sector gwirfoddol yn 2003/04 wedi dod i fwy na £20m. gan gynnwys £6.85m ar gyfer y Cynllun Ailgyrchu Strategol, £9m i ymestyn Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, £220,000 ar gyfer Uned Cofnodion Troseddol y sector gwirfoddol, £1.8m o nawdd Llywodraeth y Cynulliad ac Amcan 1 ar gyfer Menter y Farchnad Lafur dan arweiniad y sector gwirfoddol, er mwyn cefnogi prosiectau marchnad lafur hanner ffordd yng Ngogledd Cymru.

Cyllid i 'r sector

Mae CCGC yn parhau i anrhydeddu ei ymrwymiad i ddiogel a chynyddu 'r adnoddau sydd ar gael i 'r sector trwy ddsbarthu mwy o grantiau i fwy o brosiectau. Roedd 3,731 o brosiectau wedi elwa ar £18.8m eleni. Yr hyn sy 'n bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn yw 'r ffaith fod mwy wedi manteisio ar Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ei flwyddyn olaf o gam 1. Wedi 'i nodd fel rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth

Cynulliad Cymru, mae Cronfa 'r Ymddiriedolaeth yn targedu wardiau a chymunedau diddordeb sydd wedi 'u pennu 'n rhai Cymunedau yn Gyntaf. Cefnogodd y Gronfa 2,457 o brosiectau lefel sylfaenol eleni gan fuddsoddi £6.6m mewn gweithredu cymunedol lleol, a helpu i adfywio rhai o gymunedau mwyaf eithriedig Cymru.

Arian y Loteri

Yr oedd y bwriad i uno'r Gronfa Cyfle Newydd a'r Gronfa Gymunedol yn ystyriaeth o bwys i'r sector, a chafwyd presenoldeb da mewn digwyddiadau polisi ac ymgynghori CCGC a gynhaliwyd i drafod yr argymhellion. Symbylwyd trafodaeth fywiog iawn. Bydd yr uniad yn creu un dosbarthwr a fydd yn dyrannu 50 y cant o elw'r loteri, ac yr oedd mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn glir eu bod yn disgwyl i'r corff newydd nid yn unig ddiogelu nawdd

presennol y sector trwy'r

NOF a'r Gronfa Gymunedol, ond hefyd i dargedu rhagor o adnoddau'n benodol at grwpiau gwirfoddol a chymunedol llai. Bydd y ffordd y bydd trefniadau'r dosbarthwr newydd yn mynd rhagddynt o 2004 ymylaen yn parhau i fod yn fater o bwys i'r sector.





Ewrop

Y mae Uned Cefnogi'r Sector Gwirfoddol, a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2001 i gynorthwyo mudiadau gwirfoddol i fanteisio'n llwyddiannus ar brosiectau Amcan 1 a'u gweithredu, wedi'i ymestyn erbyn hyn i gwmpasu Cymru gyfan. Cafodd CCGC bron i 23,000 o ymweliadau i www.cggc.org.uk/ewrop, gyda dros 1000 o fudiadau wedi'u cofrestru ar y safle hwn. Mae wedi dosbarthu 2700 o dafenni gwybodaeth ar Nawdd Ewropeaidd ac Amcan 1, wedi cynhyrchu a dosbarthu 2600 o CD ROMs rhyngweithiol i'w defnyddio gan ymgeiswyr, wedi delio â dros 3000 o alwadau ffôn, wedi cynnal 400 o gymorthfeydd wyneb yn wyneb gydag unigolion a mudiadau, wedi cyflwyno dros 150 o gyrsiau hyfforddiant a chyflwyniadau i dros 700 o bobl sy'n dymuno ymgeisio am arian o Ewrop.

Yn dilyn llwyddiant y gwasanaeth Amcan 1, bydd mudiadau o Ddwyrain Cymru, erbyn hyn, yn gallu cael cyngor a gwybodaeth ar raglenni Amcan 2 a 3. Mae'r gwasanaeth estynedig yn darparu cynghorydd ychwanegol sy'n gweithio'n benodol yn Nwyrain Cymru ac estyniad o raglen hyfforddiant Ewropeaidd CCGC, gan gynnwys cyrsiau rheoli prif brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Straen cefn gwlad

Pwrpas y cynllun hwn yw cynnig arian refeniw i fudiadau gwirfoddol er mwyn eu helpu i liniaru'r straen a achoswyd o ganlyniad i argyfwng clefyd y traed a'r genau mewn cymunedau gwledig yng Nghymru, neu a waethygyd o ganlyniad i'r clefyd hwnnw. Yr oedd y mudiadau gwirfoddol a wnaeth gais am yr arian yn cefnogi'r rhai mewn angen yn y gymuned wledig ehangach, yn ogystal â chymunedau ffermio. Derbyniodd 27 o geisiadau £550,000 yn y rownd ariannu ychwanegol hon.



Prosiect Cymuned Tan y ffordd

Ymddiriedolwyr 2003/2004

| | |
|------------------------|--|
| Tom Jones, OBE | Cadeirydd |
| Margaret Jervis, MBE | Is-gadeirydd |
| Douglas E. Morris | Trysorydd |
| Lydia Bassett | Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| D. Emrys Bowen | Cymdeithas Frenhinol Amaethyddol Cymru (tan fis Tachwedd 03) |
| Dr. Neil Caldwell | Unigolyn |
| Phil Davies | Cymdeithas Alzheimers |
| Walter Dickie | Unigolyn |
| Eurwen E. Edwards, BEM | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych |
| Stuart Etherington | NCVO |
| S. Meryl Evans | Forwm Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych (tan fis Tachwedd 03) |
| David G. Evans | Unigolyn |
| Catrin Fletcher | Cefnogaeth Gartref Cymru |
| John Griffiths | Cyngor Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Cymru (tan fis Tachwedd 03) |
| Nerys Hughes, MBE | Unigolyn |
| Kate Jones | RSPCA |
| Tom Jones | Grwp Mynediad Sir Conwy |
| Tejay de Kretser | Cymdeithas Cyngorau Gwirfoddol Sirol Cymru |
| Mike Lewis | Sefydliad Lloyds TSB dros Loegr a Chymru |
| Ruth Marks | Chwarae Teg |
| David Murray | Age Concern Gwent |
| Jane Pagler | Unigolyn |
| Martyn Pengilley | Cynghairir Henoed Cymru |
| Graham Price | Cymdeithas Addysg y Gweithwyr |
| John Puzey | Forwm Tai Cymru |
| Julian Richards | Gweini |
| Barbara Roberts | Cymorth i Ddiodefwyr Sir y Fflint |
| Keith Roberts | Oxfam yng Nghymru (tan fis Tachwedd 03) |
| Jaswant Singh, MBE | Race Equality First |

| | |
|---------------------------------|---|
| L. Mair Stephens | Cynulliad Merched Cymru |
| Dr. Tim Stowe | Cwlwm Cefn Gwlad a Bywyd Gwylt Cymru |
| Fran Targett | Cyngor ar Bopeth |
| Jon Townley | Oxfam Cymru |
| Derek Walker | LGB Forum Cymru |
| Catriona Williams | Plant yng Nghymru |
| Mal Williams | Cylch |
| Wendy Williams, MBE | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Veronica Wilson | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Pobl Ifanc Cymru |
| Pauline Young | Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a1r Fro |
| Arslylydd | |
| Margaret Thorne, OBE, DL | Cymdeithas Cyngorau Gwirfoddol Sirol Cymru |
| Ymgynghorydd Cyfreithiol | |
| Hanif Bhamjee, OBE | Crowley a'r Cwmni |
| Ymgynghorydd ariannol | |
| | Chad Patel |
| Archwilwyr | |
| | KPMG LLP |
| Banc | |
| | Barclays Bank plc |
| Ysgrifennydd y Cwmni | |
| | Jan Bish |

Hoffai CGGC ddiolch i'r canlynol am eu cefnogaeth:

| | |
|--|--|
| Sefydliad Cymorth i Elusennau | Yr Ymddiriedolaeth Cyfryngau |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Comisiwn y Mileniwm |
| Y Gronfa Gymunedol | Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm |
| Employment Zone/Cyswilt Gwaith | Sefydliad Hyfforddi Cenedlaethol |
| Cronfeydd Strwythurol Ewrop | Y Gronfa Cyfleoedd Newydd |
| Yr Ymgyrch Roi | Canolfan Gydweithredol Cymru |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Sefydliad Lloyds TSB dros Loegr a Chymru | Asiantaeth Datblygu Cymru |



Bwrdd CGGC

Crynodeb o'r mantolenni ariannol

Mae'r datganiadau ariannol cryno hyn yn grynodeb o wybodaeth a godwyd o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon statudol. Mae'n bosib nad ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth lawn o sefyllfa ariannol yr elusen. Am wybodaeth bellach, dylid edrych ar y cyfrifon llawn am y flwyddyn, adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon hynny ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Gellir cael copiâu o'r rhan gan S] Bish, Ysgrifennydd y Cwmni.


Cymeradwywyd y cyfrifon blynyddol ar 7 Hydref 2004 ac fe'u cyflwynwyd i'r Comisiwn Elusennau a'r Cofrestrwydd Cwmnïau. Archwiliwyd y cyfrifon gan archwiliwr cymwys, KPMG, LLP a roddodd farn ddiamed, heb gynnwys datganiad, fel sy'n ofynnol dan adran 237 (2) a (3) Deddf Cwmnïau 1985.

Mantolen o weithgarwch ariannol am

y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004


| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm Cronfeydd 2004 £ | Cynfanswm Cronfeydd 2003 £ |
|---|---------------------------------|------------------------------|------------------------------------|-------------------------------------|
| Derbyniadau | | | | |
| Rhoddion | - | 77,100 | 77,100 | - |
| Gweithgareddau i ymestyn gweithgareddau'r elusen: | | | | |
| Grantiau | 784,984 | 24,063,372 | 24,848,356 | 12,505,748 |
| Tanysgrifiadau | 33,763 | - | 33,763 | 30,692 |
| Incwm arall | 1,521,796 | 138,843 | 1,660,639 | 1,467,646 |
| Incwm buddsoddiadau | 43,159 | 103,935 | 147,094 | 224,725 |
| Cyfanswm derbyniadau | <u>2,383,702</u> | <u>24,383,250</u> | <u>26,766,952</u> | <u>14,228,811</u> |
| Gwariant | | | | |
| Costau gweithgareddau i ymestyn gweithgareddau'r elusen | | | | |
| Grantiau | - | 18,814,631 | 18,814,631 | 11,336,828 |
| Eraill | 1,892,990 | 6,257,151 | 8,150,141 | 5,735,024 |
| Rheoli a gweinyddu | 303,020 | 24,452 | 327,472 | 339,583 |
| Cyfanswm a wariwyd | <u>2,196,010</u> | <u>25,096,234</u> | <u>27,292,244</u> | <u>17,411,435</u> |
| (Allion)/ mewnlion net am y flwyddyn | 187,692 | (712,984) | (525,292) | (3,182,624) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | 889 | (889) | - | - |
| | 188,581 | (713,873) | (525,292) | (3,182,624) |
| (Colledion)/ enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 4,915 | - | 4,915 | (10,205) |
| Symudiad net mewn cronfeydd | 193,496 | (713,873) | (520,377) | (3,192,829) |
| Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2003 | 1,212,296 | 3,069,914 | 4,282,210 | 7,475,039 |
| Balansau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2004 | <u>1,405,792</u> | <u>2,356,041</u> | <u>3,761,833</u> | <u>4,282,210</u> |

Enillion
(Cronfeydd Anghyfyndedig)




£2,383,702 100.0%

Enillion
(Cronfeydd Cyfyngedig)




£24,383,250 100.0%

Gwariant
(Cronfeydd Anghyfyngedig)



£2,196,010 100.0%

Gwariant
(Cyfyngedig)



£25,096,234 100.0%

Mantolen

ar 31 Mawrth 2004

Asedau sefydlog

Asedau cyfredol

Buddsoddiâu

Dyledwyr a rhagdaliadau

Arian yn y banc ac mewn llaw

Credydwy:

Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn

Asedau cyfredol net

Asedau net

Cronfeydd

Cronfeydd cyfyngedig - mewn gwarged

Cronfeydd cyfyngedig - balansau dyledus

Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig

Cronfeydd heb Gyfyngiad - Cyffredin

Cronfeydd heb Gyfyngiad - Penodedig

Cronfa gadw ailbrisio

| | 2004 | | 2003 | |
|--|------------------|------------------|--------------------|------------------|
| | £ | £ | £ | £ |
| | | 1,141,058 | | 1,198,111 |
| | 81,184 | | 76,269 | |
| | 45,626 | | 208,298 | |
| | <u>3,367,557</u> | | <u>3,959,446</u> | |
| | 3,494,367 | | 4,244,013 | |
| | <u>(873,592)</u> | | <u>(1,159,914)</u> | |
| | | 2,620,775 | | 3,084,099 |
| | | <u>3,761,833</u> | | <u>4,282,210</u> |
| | 2,550,531 | | 3,533,212 | |
| | <u>(194,490)</u> | | <u>(463,298)</u> | |
| | | 2,356,041 | | 3,069,914 |
| | 1,031,792 | | 854,296 | |
| | <u>374,000</u> | | <u>358,000</u> | |
| | | 1,405,792 | | 1,212,296 |
| | | <u>3,761,833</u> | | <u>4,282,210</u> |

Datganiad archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno ar dudalennau 26 i 28 sy'n gyfrifon anstatudol a baratowyd er mwyn eu cynnwys yn Adolygiad Blynyddol yr elusen.

Mae'r datganiad hwn wedi ei baratoi'n benodol ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, yn unol a thererau ein llythyr derbyn dyddiedig 20 Mawrth 2004. Gwanethpwyd y gwaith hwn er mwyn ein galluogi i ddatgan yn yr adroddiad y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu gwneud yn ol telerau derbyn y gwaith ac i ddim diben arall. I'r graddau hynny a a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, am ein gwaith, am y datganiad hwn, na'r casgliadau a fynegir.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwilwyr, y naill a'r llall

Mae'r bwrdd yn gyfrifol fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr am baratoi'r datganiadau ariannol cryno. Rydym wedi cytuno i adrodd i chi, yr ymddiriedolwyr, ynghylch eu cysonder â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon statudol, ac fe adroddwyd ar hynny ar 7 Hydref 2004. Rydym hefyd wedi darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn y datganiadau ariannol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os ydym yn dod yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau materol gyda'r datganiadau ariannol cryno.

Sail ein barn

Rydym wedi gweithredu'r trefniadau yr ydym yn credu sy'n angenrheidiol er mwyn canlod a yw'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon statudol sy'n sail i'w paratoi.

Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2004.

KPMG LLP, Cyfrifwyr Siartredig, Archwilwyr Cofrestredig, Marlborough House, Llys Fitzalan, Caerdydd CF24 0TE. 7 Hydref 2004